Adroddiad Blynyddol
2019 - 2020

Elusen Gofrestredig: 1120223
Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 6204415

Menter Iaith Sir Ddinbych

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'n rhan o ddyletswyddau'r Cadeirydd i edrych yn ôl ar bob agwedd o waith y Fenter yn y flwyddyn aeth heibio cyn cyflwyno adroddiad i Gyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli i'w galluogi i fesur a chloriannu ein gwaith a'r gweithgareddau trwy'r Adroddiad Blynyddol, a'i gyflwyno mewn Cyfarfod Blynyddol a gynhelir fel arfer mewn canolfan gymunedol. Ond eleni rheolau Covid-19 sydd yn amharu yn enfawr ar yr arferiad. Fe fydd Cyfarwyddwyr a Staff yn pwyllgora o'u swyddfeydd neu gartref ar Zoom. IA, wir!
Pandemig yn gorfodi pobl y byd i lawr llwybr na wyddom eto lle bydd yn ein harwain yn y dyfodol .

Diolch i staff y Fenter am grynhoi'r holl weithgareddau i'w rhoi yn yr adroddiad yma. Mae gennym Drysorydd gwirfoddol eithriadol o weithgar a chefnogol. Hefyd rhown groeso a dymuniadau da i ysgrifennydd newydd ein Bwrdd. Diolch i'r ddau am eu gwaith amhrisiadwy.

Un o'r dyletswyddau annisgwyl gafodd y Prif Swyddog wrth ddod i ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw, oedd cymryd cyfrifoldeb i baratoi'r staff am y clo mawr i gyd fynd â llawer o gyfyngiadau a osodwyd gan y Llywodraeth. Pwyso a mesur a sicrhau bod gwaith y Fenter yn parhau serch yr heriau. Tasg drom i ddisgyn ar unrhyw un yn annisgwyl ond wedi llwyddo yn wirioneddol dda.

Newyddion da'r flwyddyn sy'n wir achos dathlu ydi bod Menter Iaith Sir Ddinbych wedi'i ddyfarnu yn haeddiannol i dderbyn marc safon Elusen Ddibynadwy gan yr NCVO. Gwyddwn fod gweinyddiaeth y Fenter yn dda ond nid da lle ceir gwell oedd hi! Nid yw'r marc yn hawdd i'w ennill a mawr oedd y gwaith i'w gyrraedd ac mae'n anrhydedd mawr i'r Staff ac aelodau'r Bwrdd. Eto diolch yn fawr am symud y safon yn uwch fyth. Dathlwn ymhen dipyn eto a dalied ati.

Penodwyd Nia Parry a Buddug Davies fel swyddogion Prosiect Cymunedau Dwyieithog o Mai 2019 hyd Fawrth 2020. Gwnaethant waith arbennig a phleser oedd rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd gyda ni ar ddechrau eu gyrfa. Dymuniadau da iddynt yn y dyfodol .

Nid trwy sefyll yn unman ddaw dim da. Ar ôl meddwl yn ddwys iawn ac edrych i mewn i'n rôl a pharatoi am y blynyddoedd a ddaw, mae'r Fenter yn ystyried ein hanghenion am well adnoddau. Gyda blaenoriaeth o ddenu mwy o fuddsoddiad allanol yn sgil ein marc safon newydd, rwy'n gobeithio gallwn weld datblygiadau cyffrous erbyn y Cyfarfod Blynyddol yn 2021!

Mae Adroddiad 2019-2020 yn lliwgar, hyfryd ac yn rhoi gwybodaeth am weinyddiaeth y Fenter, sefyllfa ariannol a mathau o weithgareddau yr ydym yn ymgymryd â hwy yn fewnol ac yn y gymuned. Gobeithio y cewch gyfle i'w ddarllen. Mae yn adlewyrchiad da o waith y Fenter ac yn addysgol a difyr am hyn yr ydym yn wneud mewn blwyddyn arferol.

Gwerthfawrogwn y gwaith mae ein gwirfoddolwyr yn wneud ar gefnogaeth ariannol sydd ar gael i'n helpu i ddal ymlaen i hybu a chryfhau defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

E Alice Jones,
Cadeirydd.

CYNNWYS:

Adroddiad y Cadeirydd	2
Beth yw Menter Iaith?	4
Menter Iaith Sir Ddinbych	5
Cyfarwyddwyr 2019-20	6
Staff y Fenter 2019-20	6 -7
Yr ardal a wasanaethir	8
Nodau ac Amcanion Menter Iaith Sir Ddinbych	9
Blas ar waith y Fenter 2019-20	10 - 22
Datblygu a Chryfhau a Diolchiadau	23

Menter Iaith Sir Ddinbych
6 Heigad
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3LE

✆ 01745 812822

E-bost: menter@MISirDdinbych.cymru

Gwefan: www.misirddinbych.cymru

Menter Iaith Sir Ddinbych @MIDinbych @cymraeg_sirddinbych

Beth yw Menter Iaith?

What's a Menter Iaith?

Mae 22 Menter yn gweithio yn ein cymunedau dros Gymru

There are 22 Welsh language enterprises working in Wales

yn cefnogi dros 160,000 o bobl o bob oed

supporting over 160,000 people of all ages

i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau.

to increase and strengthen the use of Welsh in our communities.

Yn trefnu gwyliau, clybiau gofal, sesiynau iaith a mwy -

Organising festivals, childcare, language sessions and more -

mae'r fenter yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith,

Menter Iaith is a one-stop-shop for the language,

yn ein helpu i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

helping us live, learn and enjoy in Welsh

Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

Mentrau Iaith is for everyone.

I ddarganfod mwy ewch i **mentrauiaith.cymru**

To find out more go to **mentrauiaith.cymru**

CYMRAEG

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych ym mis Hydref 2003 pan esblygodd o'r hen Fenter Iaith Dinbych-Conwy a oedd wedi bodoli ers 1998.

Mae'r Fenter yn elusen gofrestredig ers 11eg Tachwedd 2004 ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant ers 5ed Ebrill 2007. Mae gan y Fenter fwrdd o gyfarwyddwyr profiadol, gweithgar a chefnogol iawn.

Strwythur Menter Iaith Sir Ddinbych 2019-2020



CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR

Cyfarwyddwyr/ Ymddiriedolwyr	Enw:	Cynrychioli	Etholwyd:
Cadeirydd	Alice Jones	Unigolyn	21/10/2015
Is – Gadeirydd	Arwel Roberts	Unigolyn	24/04/2014
Trysorydd	Owain Gwyn Morris	Unigolyn	20/10/2011
Ysgrifennydd	Mared Williams (ymddeol 16/10/19)	Unigolyn	21/10/2015
	Anna Lloyd Edwards	Unigolyn	16/10/2019
	Emrys Wynne	Unigolyn	03/10/2012
	Eleri Llwyd	Unigolyn	14/10/2014
	Gwenan Prysor	Unigolyn	21/10/2015
	Alaw Jones	Unigolyn	19/10/2016
	Bethan Cartwright	Unigolyn	11/10/2017
	Menna Jones	Unigolyn	16/01/2019
Ymddiriedolwr			
	Cyng. Meirick Lloyd Davies	Cyngor Sir Ddinbych	16/10/2019

STAFF

Prif Swyddog: Ruth Williams

Mae Ruth wedi gweithio i'r Fenter ers Medi 2013. Yn llawn amser, mae hi'n rheoli'r Fenter o ddydd i ddydd, yn gyfrifol am faterion strategol, marchnata a chyfathrebu. Mae hi hefyd yn arwain ar ambell i weithgaredd cymunedol.

Swyddog Cyllid a Busnes: Iorwen Jones

Mae Iorwen wedi gweithio i'r Fenter ers Ebrill 2004. Yn gweithio 30 awr yr wythnos, mae hi'n gyfrifol am weinyddiaeth a chyllid y Fenter ac yn cefnogi peth o'n gwaith cymunedol.

Swyddog Datblygu Cymunedol:

Gwion Tomos-Jones

Mae Gwion wedi gweithio i'r Fenter, yn llawn amser, ers Hydref 2013. Mae prif feysydd gwaith Gwion yn ymwneud â chyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Swyddogion Prosiect
Cymunedau Dwyieithog Sir Ddinbych

Cyflogwyd Nia Parry a Buddug Davies (20 awr yr wythnos yr un) o fis Mai 2019 trwy brosiect a gefnogwyd gan Cadwyn Clwyd. Cyllidwyd yn bennaf drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.
Daeth cytundeb Nia i ben ddiwedd Rhagfyr 2019 ac fe gariodd Buddug ymlaen am 30 awr yr wythnos hyd ddiwedd Mawrth 2020)

Swyddog Prosiect Helo Blod

Nodir hefyd bod Nia Morris, swyddog prosiect Helo Blod, wedi'i chyflogi dan gynllun Mentrau Iaith Cymru trwy Menter Iaith Conwy, a'i bod yn cefnogi busnesau bach yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae Nia yn gweithio'n rhannol allan o swyddfa Menter Iaith Sir Ddinbych.

YR ARDAL A WASANAEITHIR GAN Y FENTER

Mae 93,734 o bobl yn byw yn Sir Ddinbych ac mae 24.6% o'r rheini yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011.

Ar hyd yr arfordir a ffin ddwyreiniol y sir ceir cymunedau megis Prestatyn, Y Rhyl, a Llanbedr D.C. ble mae canran y boblogaeth a aned yng Nghymru cyn ised neu yn is na 50%.

Mae'r patrwm o newid demograffig a achosodd hyn (ac sy'n dal i ddigwydd) wedi cael effaith sylweddol ar ganrannau siaradwyr Cymraeg y Glannau sydd yn is, ar gyfartaledd na 20% erbyn hyn.

Yn ardal Llangollen gwelir, yn ôl cyfrifiad 2011, mai isel iawn yw canran y siaradwyr Cymraeg, er bod y pentrefi gwledig cyfagos megis Bryneglwys a Llandegla a chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.

I'r De o'r A55 ceir cymunedau gwledig gyda chanran y boblogaeth a aned yng Nghymru gryn dipyn yn uwch a chanran uwch o lawer yn siaradwyr Cymraeg.

Mae hyn yn wir am yr ardal wledig sy'n ymestyn o'r A525 i lawr i Ddyffryn Clwyd draw at ffiniau Gorllewin Sir Conwy, er bod hyn erbyn hyn yn dechrau newid. Roedd canran siaradwyr Cymraeg yr ardal hon yn ôl cyfrifiad 1991 rhwng 60% a 80%, ond erbyn cyfrifiad 2011 mae'r ffigwr rhwng 40% a 60%.



Dylid nodi fod canrannau o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd cyfagos ym Mro Aled ac Uwchaled yn cynyddu i tua 70% a bod y rhain yn bwysig i ni gan fod gymaint o'r boblogaeth hynny yn gweithio, cael eu haddysg, hamddena ac yn siopa yn Sir Ddinbych

NODAU AC AMCANION

Prif nodau hir dymor:

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-Gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-Gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
   - i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
   - i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
   - i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

BLAS AR WAITH Y FENTER YN 2019-2020

Yn unol ag amodau'r grant craidd gan Lywodraeth Cymru canolbwyntiwyd ar dri phrif faes sef:

1. **Plant a Phobl Ifanc**
2. **Teuluoedd**
3. **Y Gymuned**

O dan y penawdau hynny roeddem yn gweithio tuag at:

- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a hyderus tu allan i oriau ysgol

- Rhagor o blant yn cael eu magu'n ddwyieithog. Naill ai drwy fwy o rieni Cymraeg eu hiaith yn trosglwyddo'r iaith neu rieni di-Gymraeg yn dewis addysg Gymraeg

- Codi'r lefel o ymwybyddiaeth am y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg/Cymreig a chynyddu'r nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Yn dilyn, mae detholiad o'r mathau o waith roedd y Fenter yn ei wneud gyda'r gymuned yn ystod y flwyddyn. Blas yn unig sydd yma. Ceir darlun mwy manwl a'r cyfle i weld lluniau ac ambell glip fideo o'r gweithgareddau ar ein gwefan ac ar ein tudalennau Facebook a Twitter.

Roedd y gwaith yn cynnwys :

- Cydweithio â phartneriaid er budd teuluoedd ifanc

- Hyrwyddo gwerth y Gymraeg i rieni

- Gweithgareddau i blant a phobl ifanc

- Gweithgareddau cymunedol

- Cefnogi grwpiau cymunedol / gwirfoddol

- Gweithleoedd / busnesau

- Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth

- Fforwm Iaith

- Cymraeg Mewn Addysg

- Cyfathrebu â'r Cyhoedd

Cydweithio â phartneriaid er budd teuluoedd ifanc

Mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau teuluoedd (megis Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych, Canolfan Gerdd William Matthias) cynhaliwyd gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cymdeithasol a'r gefnogaeth sydd ar gael i rieni i fagu eu plant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Taith Magi Ann o gwmpas llyfrgelloedd y sir

Dydd Gŵyl Dewi i Deuluoedd, Neuadd y Dref, Dinbych

Camau Cerdd yn ffair Clwyd2020 Rhuthun, 25 Mai

Trefnwyd **18 gweithgaredd** i deuluoedd gydol y flwyddyn, gyda **419 o rieni a 579 o blant yn mynychu.** Mynychwyd **sawl digwyddiad arall** i deuluoedd, er mwyn trosglwyddo negeseuon am fanteision y Gymraeg i deuluoedd.

Hyrwyddo gwerth y Gymraeg i Rieni

Cynhaliwyd stondin neu weithgaredd i hyrwyddo gwerth y Gymraeg a dwyieithrwydd mewn digwyddiadau megis nosweithiau agored mewn ysgolion a digwyddiadau cymunedol. Rhwng cynnal stondinau a'r gweithgareddau a drefnwyd i deuluoedd, cafwyd **sgwrs 1:1 gyda dros 400 o rieni** yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo manteision y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Gŵyl cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd, Prestatyn, Hydref 2019

Gweithgareddau Cymraeg i blant a phobl ifanc

Trefnwyd **25 o weithgareddau a sawl tymor o glybiau amser cinio wythnosol i blant a phobl ifanc**, yn bennaf rhwng 4 - 16 oed, yn ystod 2019-2020. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdai celf, clybiau chwaraeon, clybiau gwyliau, gweithdai sioeau Mewn Cymeriad, Minecraft a gweithdai ukuleles. Mynychwyd y gweithgareddau hyn gan **1155 o blant a phobl ifanc**, a heb os, mae adborth yn parhau i ddangos bod galw am ragor o weithgareddau na allwn ni eu cyflawni gyda'r adnoddau presennol.

Creu fideos yng Ngŵyl Fwyd Llangollen

Hwyl Calan Gaeaf yn Llandyrnog



Cafodd 455 o blant cynradd y cyfle i weld sioe Roald Dahl ym Mhrestatyn, Tremeirchion, Rhuthun a Phentrecelyn

Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych – dros 500 o blant wedi cymryd rhan. Gan ein bod wedi trefnu'r digwyddiad ar y cyd hefo'r Urdd,. Rydym yn hawlio 250 o ran y niferoedd – er mwyn osgoi dyblygu gyda thargedau Llywodraeth.

Tra bod rhai o'r gweithgareddau wedi eu cynnal ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol, mae eraill yn cael eu cynnal, diolch i gydweithrediad athrawon a phenaethiaid, yn ystod amser cinio neu ar ôl oriau ysgol ar safleoedd ysgol.

Profiad gwaith / gwirfoddoli i bobl ifanc

Mae'r Fenter yn cynnig cyfle gwych i bobl ifanc gael profiadau a datblygu sgiliau megis trefnu gweithgareddau, gwasanaeth cwsmer, marchnata, creu cynnwys a gwaith gweinyddol.

Dyma Leah a Beth yn helpu gyda noson Gai Toms a'r Banditos – lle cawsant gyfle i wneud cyfweliad a delio â chwsmeriaid.

Gweithgareddau cymynedol

Drwy gyd-weithio â phwyllgorau lleol cynhaliwyd neu cefnogwyd cyngherddau, gigs, nosweithiau cwis, arddangosfeydd a sgyrsiau.

Cynhaliwyd neu cefnogwyd **36 gweithgaredd cymdeithasol** gan y Fenter yn ystod y flwyddyn, gyda **thros 1,795 o oedolion a 259 o blant a phobl ifanc yn mynychu'r gweithgareddau** hyn a llawer mwy (rhai miloedd) yn mynychu digwyddiadau cymunedol a gefnogwyd gan y Fenter, megis Gŵyl Rhuthun, Gŵyl Ganol Haf Dinbych a Gŵyl Dydd Owain Glyndŵr yng Nghorwen.

Rhoddwyd cymorth i ddwsinau o ddigwyddiadau Cymraeg eraill ledled y sir – llawer ohonynt yn rhai i godi arian i Eisteddfod yr Urdd 2020 - drwy gefnogaeth hyrwyddo gwerthfawr ar rwydweithiau cymdeithasol y Fenter a thudalen Gymraeg y Denbighshire Free Press

Cowbois Rhos Botwnnog yn dal i ddenu dros 85 i wylio a hithau'n noson storm Dennis, Chwefror 2020

'Kate' yn festri'r Capel Mawr, Dinbych Chwefror 2020

Noson lansio llyfr Promenâd y Gwenoliaid yn y Rhyl

Cefnogi Siaradwyr Cymraeg Newydd/dysgwyr (oedolion)

Cynhaliwyd 11 gweithgaredd i gefnogi dysgwyr Cymraeg - sesiynau Paned a Sgwrs (er mwyn pontio dysgwyr gyda siaradwyr rhugl, teithiau tywys.
Daeth 106 o ddysgwyr i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg rhugl i'w cefnogi.

Sefydlwyd dau grŵp preifat ar Facebook, sef 'Sumae Dinbych' a 'Sumae Rhuthun' - grwpiau i rannu gwybodaeth berthnasol i ddysgwyr a chreu fforwm ar gyfer rhannu syniadau.

Fe gefnogwyd Eisteddfod y Dysgwyr ddechrau mis Mawrth - wedi'i drefnu gan Popeth Cymraeg a Choleg Cambria (Dysgu Cymraeg y Gogledd Ddwyrain).

Byddwn yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am gyrsiau i ddysgwyr trwy ein rhwydweithiau cymdeithasol, ac yn ein gwaith o gynnal gweithgareddau.

Paned a Sgwrs yn Ninbych



Paned a Sgwrs yn Llandyrnog

Cefnogi rhai sy'n byw â dementia

Mae holl staff y Fenter bellach wedi mynychu sesiynau Ffrind Dementia, ac rydym yn aelod o Grŵp Dementia Cyfeillgar Dinbych. Byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol am bwysigrwydd mamiaith ar ein rhwydweithiau cymdeithasol ac ar dudalen facebook Dementia Cyfeillgar Dinbych, a byddwn yn cefnogi Gofal Dydd Capel y Waen trwy helpu gyda'u cyhoeddusrwydd.

Yn unol â'n haddewid fel aelod o grŵp Dementia Cyfeillgar Dinbych, trefnwyd prynhawn ar y cyd â Grŵp Archif Gymunedol Dinbych yn yr Amgueddfa ym mis Mai 2019

Rydym wedi cefnogi sefydliadau trydydd sector a chartrefi gofal sydd wedi holi am ffyrdd i wella eu darpariaeth Cymraeg.

Busnesau

Cynhaliwyd cystadleuaeth ffenestri Dydd Gŵyl Dewi flynyddol eto yn Ninbych, Rhuthun, Prestatyn a Rhuddlan eto, ac fe ymunodd Llanelwy am y tro cyntaf eleni hefyd. Golyga hyn in i fod wedi gweithio â tua 100 o fusnesau bach er mwyn amlygu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ar y stryd fawr.

Yn Llanelwy, cafwyd gyfle i bontio rhwng Ysgol Glan Clwyd a busnesau wrth gynnal gweithgaredd amser cinio yn yr ysgol yn gyntaf i greu adnoddau i'r busnesau, ac hefyd i aelodau'r clwb helpu gyda beirniadu a chyflwyno gwobrau.

Yn sgil y gystadleuaeth, gwelwyd mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan rhai o'r busnesau wrth iddynt gysylltu am gefnogaeth cyfieithu neu farchnata.

Gŵyl Fwyd Llangollen – cefnogi busnesau, cefnogi pwyllgor yr ŵyl a chynnal gweithgaredd i blant a phobl ifanc.

Parhawyd i gydweithio gyda phrosiect Helo Blod Lleol (gynt yn Cymraeg Byd Busnes) proseict dan adain Mentrau Iaith Cymru, yn ystod y flwyddyn hon.

Bu swyddog y prosiect yn gweithio'n rhan amser allan o swyddfa'r Fenter yn Ninbych, a chafwyd gyfle i gydweithio ar ambell i weithgaredd yn cynnwys Gŵyl Fwyd Llangollen, Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych a Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi.

Hyrwyddo a chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol

Parhawyd i rannu ac ail-drydar ymgyrchoedd perthnasol gan Lywodraeth Cymru ar dudalennau Facebook a Twitter Menter Iaith Sir Ddinbych. Cafodd ymgyrchoedd cenedlaethol #CmonCymru, Ras yr Iaith, Diwrnod ShwMaeSu'mae a DyddMiwsigCymru yn arbennig cryn dipyn o sylw.

Fforwm Iaith Sirol (Partner Iaith Sir Ddinbych)

Mae'r Fenter wedi parhau i gydlynu'r fforwm iaith sirol, a chynhaliwyd cyfarfodydd yn chwarterol yn ystod y flwyddyn. Mae'r fforwm yn ddefnyddiol i annog cyd-weithio ac osgoi dyblygu wrth ddatblygu, cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sir, ac mae ein diolch yn fawr iawn i'n partneriaid – yn arbennig y Cyngor Sir am gydlynu'r strategaeth iaith, ac i'r Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Mudiad Meithrin, prosiect Cymraeg i Blant, Coleg Cambria, Popeth Cymraeg a Thîm Ymgynghorol y Gymraeg Mewn Addysg.

Cymraeg mewn Addysg

Parhawyd i fynychu Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg gydol y flwyddyn, gan adrodd ar weithgaredd Siarter Iaith a gefnogwyd mewn ysgolion, a sylw a roddwyd yn y cyfryngau i ddatblygiadau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Sefydlwyd a / neu cefnogwyd clybiau amser cinio yn Ysgolion Uwchradd Dinas Brân, Brynhyfryd a Glan Clwyd, a chafwyd ambell ymweliad neu gydweithrediad gyda ysgolion cynradd Y Llys, Pen Barras, Carreg Emlyn, Pentrecelyn, Bro Cinmeirch, Pant Pastynog, Twm o'r Nant, Gwernant, Henllan, Tremeirchion yn ystod y flwyddyn hon.

Parhawyd hefyd i rannu negeseuon a gwybodaeth yn rheolaidd i rieni am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a sut i gefnogi plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyfathrebu â'r Cyhoedd

Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth am waith y Fenter, y Gymraeg, digwyddiadau cymdeithasol, a'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael drwy gydweithio'n agos gyda Phapurau Bro'r ardal a chyfrannu'n wythnosol a chydlynu tudalen Gymraeg y Denbighshire Free Press.

gyda'ngilydd

Eisiau helpu dysgwyr Cymraeg?

Ewch am dro gyda'r ap newydd sbon Tro!

Cyfle i leisio barn am y cynllun datblygu

Dysgu yn yr awyr agored

gyda'ngilydd

'Flynnig, ffraeth a chyhyrog'

Prosiect uchelgeisiol ar ysbyty hanesyddol

Y Bala i herio Airbus yn fyw ar Sgorio

gyda'ngilydd

Cyhoeddi pedwar aelod newydd

Digon o chwerthin... ac ambell i ddeigryn

Ymchwilio i'r Ail Ryfel

Cymgor yn croesawu cyhoeddiad cynlldeb drafft

Caneuon hen a newydd

Rhwydweithiau cymdeithasol

Rydym yn gwneud defnydd cyson o'n tudalennau Facebook a Twitter ac wedi gweld cynnydd parhaol yn y nifer o ddilynwyr sydd gan y Fenter, ac o'r herwydd, y dylanwad rydym yn cael ar ein cynulleidfaoedd.

Gwelwyd cynnydd yn y nifer o ddilynwyr i'n rhwydweithiau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, gyda 2,595 o bobl yn ein dilyn ar Twitter erbyn diwedd Mawrth 2020, a thros 1,404 yn ein 'hoffi' ar Facebook.



Sefydlwyd cyfrif Instagram yn ystod y cyfnod hwn hefyd, ac erbyn 31 Mawrth 2020, roedd 465 o ddilynwyr.

Cyrhaeddiad ein negeseuon Facebook rhwng 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020.

Mae ein negeseuon yn gyson yn cyrraedd rhwng 300 – 900 o sgrinau dilynwyr, gydag ambell un cyrraedd dros 1000, a'r gorau yn ystod y cyfnod dan sylw yn cyrraedd dros 2,780.



yn

Cyrhaeddiad ein negeseuon Twitter rhwng 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020.

Mae ein negeseuon yn gyson yn cyrraedd o gwmpas 1.8 mil o sgrinau dilynwyr bob dydd, gydag ambell un yn cyrraedd dros 4 mil a'r gorau yn cyrraedd dros 25 mil.





Rydym wedi bod yn datblygu ein sgiliau a dealltwriaeth o botensial rhwydweithiau cymdeithasol fwy fwy dros y cyfnod hwn, ac yn sicr mi fyddwn yn parhau i ddatblygu ein marchnata digidol er mwyn cynyddu ein cynulleidfa yn ogystal ag annog mwy o'n dilynwyr i ymwneud â gwaith a negeseuon y Fenter.

DATBLYGU A CHRYFHAU'R FENTER

Prif flaenoriaeth y Fenter yn 2019-2020 oedd parhau i adolygu ein ffordd o weithio fel sefydliad elusennol wrth fynd trwy'r broses o weithio tuag at farc safon Elusen Ddibynadwy (PQASSO gynt), cynllun safonau cenedlaethol ar gyfer sefydliadau elusennol.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd staff Fenter yn ddiolchgar iawn eto i gael cefnogaeth barhaol Eleri Llwyd a Gwenan Prysor, dwy o'r Pwyllgor Rheoli, a fu'n weithgar yn cydweithio â staff i adolygu polisïau, gweithdrefnau, sgiliau a chymhwysedd. Wrth adnabod bylchau neu angen, aethpwyd ati i roi systemau yn eu lle. Rydym yn ddiolchgar i Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth hefyd yn ogystal â Meirion Davies, Prif Swyddog Menter Iaith Conwy, fel mentor i ni.

Cafwyd cychwyn ar y proses asesu yn Awst 2019 a chafwyd ymweliad safle boddhaol ddechrau Hydref, ond yn dilyn trafferthion mewnol yn yr NCVO, y sefydliad sy'n gyfrifol am y marc safon, ni chafwyd ein hadroddiad terfynol cyn diwedd y flwyddyn ariannol fel oedden ni wedi'i obeithio. Serch hynny, braf oedd derbyn y dyfarniad terfynol yn fuan yn y flwyddyn 2020-21 ac fe edrychwn ymlaen at barhau i gryfhau'r Fenter drwy ddenu mwy o fuddsoddiad allanol i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Ddinbych.

GWIRFODDOLWYR

Tynnwyd sylw, sawl gwaith yn ystod y flwyddyn hon, at werth gwirfoddoli yn gymunedol. Rydym yn falch iawn o fod wedi cael cefnogaeth gwirfoddolwyr ifanc Leah Jones a Beth Evans a ddaeth atom er mwyn datblygu sgiliau a phrofiad wrth gefnogi gwaith y Fenter.
Cafwyd hefyd gefnogaeth gwirfoddolwyr o bwyllgorau lleol wrth gynnal nosweithiau cymdeithasol megis nosweithiau Gwilym Bowen Rhys yn Henllan, Gai Toms a'r Banditos, Cowbois Rhos Botwnnog, Diwrnod Dathlu Dewi ac ambell ddigwyddiad lle'r oedd angen help gyda chyflwyno Magi Ann i blant.

DIOLCH

Diolch i holl rieni, plant a phobl ifanc am droi atom yn y Fenter Iaith i chwilio am gefnogaeth neu weithgareddau gydol y flwyddyn. Rydym yn falch o fedru gwasanaethu trigolion Sir Ddinbych, drwy gynnig rhywfaint o gymorth o ran eu hanghenion ieithyddol, ond yn falch hefyd o fedru dwyn perswâd ar eraill o ran rhoi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg a manteisio o'i defnyddio, boed fel dysgwyr, grwpiau cymunedol neu fusnesau.

Diolchwn hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y cyfnod hwn, i helpu llywio gwaith y Fenter, neu i'n cefnogi wrth gynnal gweithgareddau.

Ruth Williams
Prif Swyddog
Hydref 2020

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr am eu cymorth yn ystod 2019-2020

Cymdeithas Gymraeg Dinbych

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn.